I Weinidogion Cymru,

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013: Dyletswyddau Adrodd**

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot ar gyfer y flwyddyn 2017/18.

| | |
|---|---|
| Y camau gweithredu a gymerwyd i hyrwyddo teithio llesol | **Map o'r Llwybrau Presennol (MLIP)/Map Rhwydwaith Integredig (MRhI)** – cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 26 Mehefin a 18 Medi 2017, gan roi cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid wneud sylwadau ar y nifer cyfyngedig o ddiwygiadau i MLIP y cyngor a'r MRhI drafft.<br><br>Paratowyd dogfen ymgynghori gan y cyngor â'r nod o egluro'r diffiniad o deithio llesol, y math o deithiau y darperir ar eu cyfer, a negeseuon/dyheadau allweddol y cyngor am y 15 mlynedd nesaf.<br><br>Cafodd y negeseuon a'r dyheadau allweddol hyn eu cyfleu drwy strategaeth ymgynghori/cyfathrebu gynhwysfawr a oedd yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr holl unigolion, rhanddeiliaid/partneriaid cyflenwi, sefydliadau, ysgolion a 'grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml' sy'n berthnasol.<br>• Llunio holiadur/arolwg ar-lein.<br>• Gwefan gyda swyddogaeth map 'rhyngweithiol'.<br>• Datganiadau i'r wasg.<br>• Cyhoeddwyd cyfres o negeseuon Twitter a Facebook trwy gyfrif cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y cyngor.<br>• Roedd copïau caled o fapiau a holiaduron ar gael mewn Canolfannau Dinesig a llyfrgelloedd ar draws y Fwrdeistref Sirol.<br>• Defnyddiwyd rhwydweithiau presennol, megis erthygl yng nghylchlythyr staff y cyngor a mynychwyd y 'fforwm mynediad lleol' i hysbysu tirfeddianwyr o'r ymgynghoriad.<br>• Mewn cydweithrediad â Sustrans, cynhaliwyd gweithdai Teithio Llesol mewn dwy ysgol.<br>• Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu |

| | |
|---|---|
| | cymunedol yng Nghastell-nedd, Port Talbot a Phontardawe.<br><br>Arweiniodd yr ymdrechion hyn at ymateb da i'r ymgynghoriad, a chofnodwyd y cyfan mewn 'Adroddiad Ymgynghori'.<br><br>Ar ôl derbyn cymeradwyaeth Weinidogol i MLIP ac MRhI diwygiedig y cyngor ar 27 Chwefror 2018, hyrwyddodd a chyhoeddodd y cyngor y mapiau cymeradwy ar wefan y cyngor, sy'n cynnwys swyddogaeth Map Rhyngweithiol .<br><br>**Cyswllt Mewnol** – cyswllt parhaus â chydweithwyr o adrannau Cynllunio, Priffyrdd ac Addysg i annog hyrwyddo a darparu ar gyfer teithio llesol fel rhan o ddatblygiadau newydd.<br><br>**Tîm Diogelwch Ffyrdd** - Cynhaliodd y Tîm Diogelwch  Ffyrdd nifer o weithgareddau i hyrwyddo Teithio Llesol gan gynnwys:<br><br>- **CycleCraft (Hyfforddiant beicio ar y ffyrdd):** 24 ysgol, 418 o ddisgyblion.<br><br>- **Ymwybyddiaeth Feicio** (Blwyddyn 3 - Blwyddyn 6): 9 ysgol, 506 o ddisgyblion.<br><br>- **Hyfforddiant Sgwteri** (pob oedran): 13 ysgol, 832 o ddisgyblion.<br><br>- **Hyfforddiant Beiciau Cydbwysedd** (Meithrin a Derbyn): 7 ysgol, 424 o ddisgyblion.<br><br>- **Beicio Cyfnod Sylfaen** (Blwyddyn 1 a 2): 12 ysgol, 519 o ddisgyblion.<br><br>- **Teithiau Cerdded Diogelwch Ffyrdd** (pob oedran): 9 ysgol, 544 o ddisgyblion.<br><br>- **Kerbcraft** (Hyfforddiant i Blant sy'n Cerdded - Blwyddyn 2): 15 ysgol, 479 o ddisgyblion.<br><br>- **Cwrs Hyfforddi Byr i Gerddwyr** (6 wythnos o hyfforddiant): 6 ysgol, 262 o ddisgyblion.<br><br>- **The Big Pedal** (y mae CNPT yn cefnogi Sustrans): 10 ysgol, 4,837 o ddisgyblion. |

| | |
|---|---|
| | - **Cwis Blynyddol:** Mae Diogelwch Ffyrdd yn cynnal cwis blynyddol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6, sy'n cael ei gynnig i bob ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot: 42 o ysgolion, 196 o ddisgyblion.<br><br>*[Sylwer: mae ffigurau ysgolion yn seiliedig ar y flwyddyn academaidd Medi 2017 - Gorffennaf 2018].* |
| Y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | Uwchraddio wyneb Camlas Castell-nedd (NCN 47) rhwng Stryd y Bont, Castell-nedd a safle Crown Food. |
| Costau a gafwyd ar gyfer llwybrau teithio llesol a chyfleusterau newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau perthnasol yn y flwyddyn lawn flaenorol. | Llwybr Beicio Camlas Castell-nedd (NCN47) Stryd y Bont, Castell-nedd i Crown Foods - £282,000. |

Yn ychwanegol at yr uchod (dewisol):

| | |
|---|---|
| Gwariant awgrymedig ar gyfer llwybrau a chyfleusterau theithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig, a ariannwyd neu a ariannwyd yn rhannol gan drydydd partïon. | Dd/B |
| Hyd y llwybrau newydd:<br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | Dd/B |
| Hyd y llwybrau a wellwyd:<br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | Dd/B |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | Dd/B |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| Dd/B |

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi, yn unol â'r Canllawiau Cyflawni statudol.

Prif Weithredwr